Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Defnyddio Fy Nghymraeg
Using My Welsh

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

Lefelau Dysgu Cymraeg
Learn Welsh levels

Mae cyrsiau Dysgu Cymraeg ar gael ar wahanol lefelau dysgu, sy'n cyd-fynd â lefelau dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop.
Learn Welsh courses are available at different learning levels, which correspond to the learning levels of the Common European Framework.

Enw'r lefel	Disgrifiad
Mynediad	Cyrsiau ar gyfer dechreuwyr, sy'n cyflwyno geirfa a phatrymau iaith syml.
Sylfaen	Mae'r lefel hon yn gofyn am rywfaint o brofiad o'r Gymraeg. Mae'r prif bwyslais ar siarad yr iaith.
Canolradd	Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Sylfaen ac yn addas ar gyfer pobl sy'n gyfarwydd â phrif batrymau'r Gymraeg.
Uwch	Dyma gyfle i ymarfer trafod pynciau a themâu o bob math. Byddwch chi hefyd yn datblygu eich sgiliau darllen, ysgrifennu a gwrando.
Hyfedredd	Mae'r cyrsiau hyn yn addas ar gyfer dysgwyr rhugl a siaradwyr iaith gyntaf.

Name of level	Description
Entry	Courses for beginners, introducing simple vocabulary and language patterns.
Foundation	This level requires some experience of Welsh. The main emphasis is on speaking.
Intermediate	This level builds on Foundation and is suitable for those who are familiar with the main patterns of Welsh.
Advanced	An opportunity to discuss all kinds of subjects and themes; learners also develop their reading, writing and listening skills.
Proficiency	These courses are suitable for fluent learners and first language speakers alike.

Croeso!

Yn y llyfryn yma mae syniadau i'ch helpu chi i ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg. Bydd mynd i'r gwersi yn lot fawr o hwyl, ond mae digon o gyfleoedd i chi gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth hefyd.
Am fwy o fanylion, ebostiwch swyddfa@dysgucymraeg.cymru neu ffoniwch 0300 323 4324.
Pob lwc gyda'r dysgu!

Y tîm Dysgu Cymraeg

Hello!

Croeso – welcome!
There are lots of ideas in this booklet for using and practising your Welsh. Welsh lessons are great fun, but there are plenty of opporunities for you to socialise and take part in activities outside the classroom too.
If you have any questions, email swyddfa@dysgucymraeg.cymru or telephone 0300 323 4324
'Pob lwc' with the learning!

The Learn Welsh team

Enw/Name:

Tiwtor(iaid)/Tutor(s):

Dyddiadau'r Tymor/Term Dates:

Tymor/Term 1:

Tymor/Term 2:

Tymor/Term 3:

Defnyddio'r Gymraeg wrth ddarllen

Llyfrau Cyfres 'Amdani'
Mae 20 o lyfrau newydd ar wahanol lefelau ar gael ar gyfer dysgwyr. Mae nofelau, cofiannau a llyfrau hanes yn rhan o'r gyfres. Mae'r llyfrau ar gael mewn siopau Cymraeg ac ar wefan gwales.com

Lingo Newydd
Mae erthyglau hawdd eu deall, storïau, newyddion am Gymru a rhestrau o eiriau newydd. I brynu Lingo Newydd (£12 y flwyddyn am chwe chopi) ewch i golwg360.cymru/lingo-newydd

Golwg
Cylchgrawn newyddion wythnosol ydy Golwg. Mae gwefan www.golwg360.cymru ac ap hefyd ar gael.

Using your Welsh while reading

The 'Amdani' series of books
Novels, biographies and history books are among a series of 20 new books written for learners at different levels. You can buy the series, called 'Amdani' (the Welsh for 'go for it'), in Welsh book shops and on gwales.com

'Lingo Newydd' magazine
Lingo Newydd is a magazine for Welsh learners. The magazine offers easy-to-read articles, features and news as well as vocabulary lists. To buy Lingo Newydd (£12 a year for six copies) go to golwg360.cymru/lingo-newydd

'Golwg' magazine
Golwg is a weekly Welsh language news magazine. The website and the Golwg app are also available: www.golwg360.cymru

Defnyddio'r Gymraeg yn ddigidol

Mae digon o ddewis o apiau a gwefannau Cymraeg diddorol.

Mae gwefan dysgucymraeg.cymru yn llawn gwybodaeth. Hefyd, mae llawer o adnoddau ar gael, yn rhad ac am ddim, i helpu gyda'r dysgu.

Mae'n bosib ymarfer eich Cymraeg trwy ddefnyddio'r ap dysgu ieithoedd, Duolingo. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.duolingo.com

Mae gwefan ac ap Say Something in Welsh hefyd yn cynnwys gwersi, geirfa ac ymarferion: www.saysomethingin.com

Mae'n bosib darllen erthyglau a chyfweliadau ar wefan BBC Cymru Fyw. Defnyddiwch y botwm VOCAB i gael cyfieithiadau Saesneg: www.bbc.co.uk/cymrufyw

Mae rhestr o apiau Cymraeg ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd llyw.cymru

Use your Welsh digitally

There are plenty of apps and websites to help you.

Information about courses, events, and other news is available at learnwelsh.cymru, as well as free resources to help you with your learning.

You can practise your Welsh by using the language learning app and website, Duolingo. For more information, go to www.duolingo.com

The 'Say Something in Welsh' website and app also includes lessons, vocabulary and exercises: www.saysomethingin.com

You can read articles and interviews on the BBC Cymru website. Use the VOCAB button for English tranlsations: www.bbc.co.uk/cymrufyw

A list of Welsh apps is also available on the Welsh Government's website – gov.wales

Defnyddio'r Gymraeg wrth wrando a gwylio

BBC Radio Cymru a Radio Cymru 2
Mae pob math o raglenni ar Radio Cymru, o newyddion a cherddoriaeth i raglenni cylchgrawn a rhaglenni dogfen. Mae'n bosib gwrando'n fyw neu wrando eto a gallwch lawrlwytho podlediadau. Mae 'Pigion' yn bodlediad ar gyfer dysgwyr lefel Uwch. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.bbc.co.uk/radiocymru

Mae gwasanaeth newydd BBC Radio Cymru 2 yn cynnig dwy awr o gerddoriaeth ac adloniant bob bore ar radio neu deledu digidol, ap BBC iPlayer Radio ac ar y we.

S4C
Mae raglenni Cymraeg ar S4C bob wythnos, ar deledu ac ar lwyfannau ar-lein, gan gynnwys yr opera sebon 'Pobol y Cwm'. Mae gwasanaeth ar gyfer plant ifanc, 'Cyw', ac mae rhaglenni ar gyfer dysgwyr yn cael eu dangos ar fore dydd Sul. Mae isdeitlau Saesneg ar nifer fawr o raglenni ac mae isdeitlau Cymraeg syml hefyd ar gael ar rai rhaglenni. Am fwy o wybodaeth, ewch i s4c.cymru

Using your Welsh by listening and watching

Radio Cymru and Radio Cymru 2
A range of Welsh language programmes are broadcast on BBC Radio Cymru. You can listen live or again and download podcasts. 'Pigion' is a podcast for learners at Advanced Level – for more information, go to https://www.bbc.co.uk/radiocymru

The new Radio Cymru 2 service offers two hours of music and entertainment every morning on digital radio, the BBC iPlayer Radio app and online.

S4C
Welsh language programmes are broadcast on S4C each week, on TV and online platforms, including popular soap 'Pobol y Cwm'. There's a special service for young children, 'Cyw' (the Welsh word for chick, pronounced like the letter 'q'), as well as programmes for Welsh learners, which are broadcast on Sunday mornings. English subtitles are available on a large number of programmes and simplified Welsh subtitles are also available on some programmes. Find out more at s4c.cymru

Defnyddio'r Gymraeg yn eich cymuned

Mentrau Iaith
Mae 22 o fentrau iaith ar draws Cymru yn cynnal gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, I ddod o hyd i'ch menter leol, ewch i www.mentrauiaith.cymru

Siarad
Mae Siarad yn dod â siaradwyr rhugl a dysgwyr lefel Canolradd+ at ei gilydd ar gyfer 10 awr o sgwrsio ac ymarfer. Os hoffech chi fod yn rhan o'r cynllun gwirfoddol hwn, cysylltwch â'ch darparwr lleol neu ebostiwch swyddfa@dysgucymraeg.cymru

Merched y Wawr
Mae'r mudiad ar gyfer merched o bob oed ac mae croeso mawr i ferched sy'n dysgu'r Gymraeg. Mae 280 o ganghennau yng Nghymru – ewch i www.merchedywawr.cymru

Using Welsh in your community

'Mentrau Iaith' – language initiatives
There are 22 'Mentrau Iaith' (language initiatives) across Wales which organise different activities through the medium of Welsh. Find your local 'Menter' at www.mentrauiaith.cymru

Siarad
'Siarad' is a new scheme that brings Welsh speakers and Welsh learners together for 10 hours of informal practice. The project is aimed at learners at Canolradd/ Intermediate + level. To find out more, ask your local provider or email swyddfa@dysgucymraeg.cymru

Merched y Wawr
This movement is for women of all ages and Welsh learners are particularly welcome. There are 280 branches across Wales – go to www.merchedywawr.cymru

Fy ardal i/My area:

.....

.....

.....

.....

Defnyddio'r Gymraeg gyda'r teulu

Using Welsh with the family

Darllen

Mae llawer o lyfrau Cymraeg lliwgar a deniadol ar gael ar gyfer plant – edrychwch yn eich llyfrgell neu siop lyfrau leol. Mae cylchgrawn WCW ar gael bob mis, i blant bach - https://golwg360.cymru/wcw

Mae cylchgronau gan yr Urdd hefyd: 'Cip', 'Bore Da' a 'Iaw' - www.urdd.cymru/siop/cy/cylchgronau/

Mae Mellten yn gomic i blant rhwng tua 8 a 12 oed: www.mellten.com

Gwylio

Mae gan S4C wasanaeth i blant ifanc o'r enw 'Cyw' - www.s4c.cymru/cyw.

Gwrando

Mae stori Gymraeg i blant ifanc, 'Stori Tic Toc', ar BBC Radio Cymru bob nos Sul am 7.00pm ac ar raglen Ifan Evans bob prynhawn Llun. Mae'r storïau hefyd ar gael ar wefan BBC Radio Cymru ac fel podlediadau.

Penwythnos Cymraeg i'r Teulu

Dewch gyda'r teulu i Wersyll yr Urdd Llangrannog, Ceredigion, rhwng 1 a 3 Mawrth 2019 am benwythnos o wersi anffurfiol a gweithgareddau hwyliog. Am fwy o wybodaeth, ebostiwch swyddfa@dysgucymraeg.cymru

Reading

A range of colourful and attractive Welsh language books are available for children – look in your local library or Welsh book shop. The 'WCW' magazine for young children is available every month - https://golwg360.cymru/wcw

The 'Urdd' youth organisation also publishes magazines for children – 'Cip', 'Bore da' and 'Iaw!' Find out more at http://www.urdd.cymru/siop/cy/cylchgronau/

'Mellten' is a comic for children aged 8 -12: www.mellten.com

Watching

S4C has a service for young children called 'Cyw' - www.s4c.cymru/cyw.

Listening

A Welsh story for young children, 'Stori Tic Toc', is broadcast on BBC Radio Cymru every Sunday evening at 7.00pm and on Ifan Evans' programme on Monday afternoons. The stories are also available on the BBC Radio Cymru website and as podcasts.

Penwythnos Cymraeg i'r Teulu – Welsh for the Family Weekend

Bring the family to the Urdd's residential centre in Llangrannog, between 1-3 March for a weekend of informal lessons and fun activities. For more details, email swyddfa@dysgucymraeg.cymru

Cynllun Defnyddio fy Nghymraeg
Using My Welsh Plan

Rhan 1/Part 1
Nod(au) ar ddechrau'r cwrs/Aim(s) at the beginning of the course:

.....

.....

.....

Dysgwr/Learner Tiwtor(iaid)/Tutor(s)

....

Rhan 2/Part 2
Sut aeth hi gyda/efo nodau Rhan 1?/How did you get on with Part 1's aims?

.....

.....

.....

Nod(au) Rhan 2/Part 2 Aim(s):

.....

.....

.....

Dysgwr/Learner Tiwtor(iaid)/Tutor(s)

....

Diwedd y cwrs/End of the course
Sut aeth hi gyda/efo nod(au) Rhan 2?/How did you get on with Part 2's aims?

.....

.....

.....

Dysgwr/Learner Tiwtor(iaid)/Tutor(s)

....

Beth nesa?/What next?

.....

.....

.....

Cadwch y dyddiad!
Save the date!

Cwrs Preswyl Glan-llyn/
Glan-llyn residential course
3-5.5.2019

Mwy o wybodaeth/
moreinformation:
swyddfa@dysgucymraeg.cymru

.....

Ar Lafar
Gŵyl Gymraeg i Ddysgwyr
Welsh Learners' Festival

6.4.2019
Dewch i dreulio'r diwrnod yn un o'n safleoedd pwysig yng Nghymru.
Come and spend the day at one of our important cultural sites.

Mwy o wybodaeth/
more information:
swyddfa@dysgucymraeg.cymru

.....

Penwythnos Cymraeg i'r Teulu/
Welsh for the Family Weekend
Dewch i Wersyll yr Urdd, Llangrannog rhwng 1 a 3 Mawrth 2019 am benwythnos o hwyl.
Join us for a weekend of fun, family activities at the Urdd's residential centre in Llangrannog.

Mwy o wybodaeth/
more information:
swyddfa@dysgucymraeg.cymru